Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Catch22 Include Wales

## Dyddiad yr arolygiad: Tachwedd 2021

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

## Ynglŷn â Catch22 Include Wales

Mae Catch22 Include Wales yn ysgol ddydd arbennig annibynnol ar gyfer disgyblion ag anawsterau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol. Mae wedi'i lleoli yn ninas Casnewydd, ac yn cael ei gweinyddu gan Catch22, sef sefydliad nid er elw sy'n berchen ar grŵp o ysgolion arbennig annibynnol yng Nghymru a Lloegr.

Mae'r ysgol wedi'i chofrestru i dderbyn hyd at 18 o ddisgyblion rhwng pedair ac un ar ddeg oed. Mae 11 o ddisgyblion yn yr ysgol ar hyn o bryd, ac mae gan lawer ohonynt ddatganiad o anghenion addysgol arbennig. Nid yw unrhyw ddisgyblion yn derbyn gofal gan eu hawdurdod lleol.

Mae'r pennaeth gweithredol wedi bod yn ei swydd ers pedair blynedd, a'r pennaeth ers dwy flynedd.

## Prif ganfyddiadau

### Cryfderau

Ers yr ymweliad monitro diwethaf ym mis Ionawr 2020, mae'r ysgol wedi wynebu heriau sylweddol o ganlyniad i bandemig COVID-19. Trwy gydol y cyfnod hwn, gweithiodd staff gyda'i gilydd yn effeithiol i alluogi'r ysgol i aros ar agor i gadw disgyblion yn ddiogel a chefnogi eu lles a'u dysgu.

Defnyddiodd staff yr amser yn ystod y pandemig hefyd i gryfhau'r ddarpariaeth ar gyfer gwella medrau llythrennedd a rhifedd disgyblion trwy gyflwyno rhaglenni ymyrraeth teilwredig. Yn ychwanegol, cyflwynodd yr ysgol blatfform cyfathrebu ar gyfer gliniaduron a ffonau symudol i gryfhau cyfathrebu â rhieni a gofalwyr a'u helpu i gefnogi dysgu eu plant yn fwy. O ganlyniad, dros y cyfnod hwn, gwnaeth llawer o ddisgyblion gynnydd cryf o ran datblygu eu medrau darllen o ystyried eu mannau cychwyn a'r targedau yn eu cynlluniau datblygu unigol. Yn 2021, mae cynnydd cyffredinol disgyblion Blwyddyn 6 yn gryf iawn, a llawer ohonynt yn trosglwyddo i leoliadau uwchradd prif ffrwd ar ddiwedd cyfnod allweddol 2, ac ychydig ohonynt i ddarpariaeth arbenigol ysgol a gynhelir.

Yn ystod yr ymweliad monitro hwn, mewn gwersi ac o gwmpas yr ysgol, dangosodd y rhan fwyaf o ddisgyblion agweddau cadarnhaol at eu cyfoedion a staff, a thuag at eu dysgu. At ei gilydd, mae disgyblion yn ymgysylltu'n dda, yn dangos brwdfrydedd yn ystod tasgau, ac yn awyddus i ddangos eu gallu.

Mae staff addysgu yn meithrin perthnasoedd gweithio proffesiynol cadarnhaol a gwerthfawr gyda'u disgyblion. Maent yn deall ac yn ymateb yn dda i anghenion dysgu ychwanegol ac emosiynol eu disgyblion. Er enghraifft, yn ystod gwersi, maent yn cynorthwyo disgyblion yn sensitif ac yn bwyllog ag arferion cyson yr ystafell ddosbarth, sy'n helpu disgyblion i ddeall a rhagweld beth sy'n digwydd o'u cwmpas.

### Meysydd i'w datblygu

Er bod y rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd cadarn yn datblygu eu medrau cymdeithasol a'u medrau darllen o ystyried eu mannau cychwyn, nid yw eu medrau ysgrifennu wedi eu datblygu'n ddigonol.

Mae gan yr ysgol ofod allanol i ddisgyblion chwarae'n ddiogel, er bod yr ardal a'r adnoddau ar gyfer chwarae yn gyfyngedig. Nid yw'r ddarpariaeth bresennol yn galluogi disgyblion i gymryd rhan mewn gweithgareddau yn ddigon da, fel hwyluso gemau pêl yn ystod amser egwyl i wella datblygiad medrau corfforol, emosiynol a chymdeithasol disgyblion.

### Argymhellion

Dylai'r ysgol:

A1 Gryfhau cynllunio a chydlynu datblygiad medrau ysgrifennu disgyblion i'w galluogi i gyflawni safonau uwch

A2 Gwella'r cyfleusterau chwarae allanol ar gyfer disgyblion i wella eu lles, a'u medrau corfforol a chymdeithasol

## Cynnydd wrth fynd i'r afael ag argymhellion o nodyn ymweliad neu adroddiad arolygiad blaenorol

**Argymhelliad 1:** Sicrhau bod cynllunio gwersi a gweithgareddau yn bodloni gwahanol anghenion gallu disgyblion

Ers yr ymweliad monitro blynyddol diwethaf, mae'r ysgol wedi sicrhau bod darpariaeth ar gyfer cynllunio gwersi a gweithgareddau wedi'i theilwra'n well i weddu i anghenion gallu gwahanol ddisgyblion. Erbyn hyn, mae disgyblion mewn grwpiau addysgu sy'n gweddu'n agosach i'w hanghenion dysgu a'u hanghenion cymdeithasol ac ymddygiadol. Mae'r ymagwedd hon yn helpu staff i ddatblygu dealltwriaeth lawnach o anghenion eu disgyblion, a sut i ymateb i'r rhain yn unigol. O ganlyniad, mae staff addysgu yn dod yn fwy hyblyg yn y modd y maent yn cynllunio gweithgareddau pwrpasol sydd wedi'u teilwra i anghenion a diddordebau eu disgyblion. Er enghraifft, caiff datblygiad medrau disgyblion yn aml ei gynllunio gyda gweithgareddau ymarferol cynyddol a chyd-destunau go iawn, y mae disgyblion yn ymateb iddynt yn ffafriol.

Ar draws yr ysgol, mae staff addysgu yn datblygu hyder wrth ddefnyddio system asesu ac olrhain newydd yr ysgol. Maent yn gweithio ar y cyd ag uwch arweinwyr i gofnodi a monitro cynnydd disgyblion, ac yn gweithredu'n gyflym os nodir tanberfformio. Mae defnydd athrawon o'r wybodaeth hon yn eu helpu i fod yn fwy medrus yn cynllunio gweithgareddau personoledig i fodloni anghenion dysgu a lles unigol eu disgyblion yn briodol.

**Argymhelliad 2:** Cryfhau'r cysylltiad rhwng defnyddio data a hunanwerthuso a chynllunio gwelliant ar bob lefel

Mae'r ysgol wedi cymryd sawl cam defnyddiol i gryfhau'r cysylltiad rhwng defnyddio data a hunanwerthuso a chynllunio gwelliant ar bob lefel. Mae'r camau hyn yn cynnwys cyflwyno system olrhain ac asesu fasnachol i staff gofnodi a dangos tystiolaeth o gynnydd pob disgybl ar draws meysydd dysgu. Mae staff addysgu yn defnyddio'r system yn hyblyg i gofnodi eu hasesiadau teilwredig eu hunain gan yr athro, yn ogystal â phrofion ac ymyriadau eraill. Defnyddiant y wybodaeth hon yn briodol i helpu llywio cynlluniau gwersi, er enghraifft wrth nodi taith pob disgybl tuag at hyfedredd mewn medr penodol.

At ei gilydd, mae uwch arweinwyr yn defnyddio bas data'r ysgol yn gadarn i fonitro cynnydd disgyblion a rhannu a thrafod deilliannau â staff addysgu a disgyblion a'u rhieni a gofalwyr. Maent yn gweithio'n agos gyda staff addysgu i gynnal adolygiadau bob hanner tymor a dadansoddi data ar gyfer pob disgybl a'r ysgol gyfan. Mae'r dull hwn yn helpu staff i adnabod yn haws y rhwystrau penodol sy'n atal disgyblion rhag cyflawni eu targedau, a'r cymorth sydd ei angen i'w helpu i wella eu gwaith.

Hefyd, mae uwch arweinwyr yn defnyddio'r data yn briodol i lywio hunanwerthuso a chynllunio gwelliant ysgol gyfan. Megis dechrau datblygu y mae eu dadansoddiad o berfformiad gwahanol grwpiau o ddisgyblion.

## Cydymffurfio â’r safonau ar gyfer cofrestru

**Safon 1: Ansawdd yr addysg a ddarperir gan yr ysgol**

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes tystiolaeth sy’n dangos nad yw’r ysgol yn bodloni’r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon.

**Safon 2: Datblygiad ysbrydol, moesol a diwylliannol disgyblion**

Ar yr ymweliad hwn, ni wnaeth Estyn arolygu Safon 2.

**Safon 3: Lles, iechyd a diogelwch disgyblion**

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes tystiolaeth sy’n dangos nad yw’r ysgol yn bodloni’r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon.

**Safon 4: Addasrwydd perchnogion a staff**

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes tystiolaeth sy’n dangos nad yw’r ysgol yn bodloni’r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon.

**Safon 5: Eiddo a llety preswyl mewn ysgolion**

Ar yr ymweliad hwn, ni wnaeth Estyn arolygu Safon 5.

**Safon 6: Darparu gwybodaeth**

Ar yr ymweliad hwn, ni wnaeth Estyn arolygu Safon 6.

**Safon 7: Y modd yr eir i’r afael â chwynion**

Ar yr ymweliad hwn, ni wnaeth Estyn arolygu Safon 7.

## Argymhelliad ynghylch cofrestru

Wrth ystyried cofrestriad yr ysgol hon, gallai Llywodraeth Cymru ddymuno ystyried yr argymhelliad canlynol:

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes tystiolaeth i ddangos nad yw’r ysgol yn bodloni gofynion Rheoliadau Safonau Ysgol Annibynnol (Cymru) 2003.

Ni ddylai barnau arolygwyr ar yr arolygiad cyfyngedig hwn niweidio canfyddiadau arolygiad Adran 163 llawn yn y dyfodol.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad yn unol ag adran 163 Deddf Addysg 2002. Prif ddiben arolygu o dan yr adran hon yw adrodd ar gydymffurfio â Rheoliadau Safonau Ysgol Annibynnol 2003. Mewn ysgolion sy'n darparu addysg feithrin nas cynhelir, mae'r adroddiad hwn hefyd yn bodloni gofynion Atodlen 26 Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2022: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.